

# Ydi'r chwynnyn yma'n un da

## Canllaw perchennog tir i rywogaethau glaswelltir a'u manteision

# Ydi'r chwynnyn yma'n un da

## Mae glaswelltiroedd amrywiol yn well i dda byw – ac i'r fferm

Cyn meddyginiaethau milfeddygol modern, roedd ffermwyr yn defnyddio'r blodau gwyllt yn eu dolydd i helpu i gadw da byw yn iach. Yn aml byddai gan ffermydd Cymru gae o'r enw 'Cae Ysbyty', gyda chyfoeth o amrywiaeth eang o blanhigion gwyllt, lle gallai stoc sâl bori'r planhigion yn reddfol a byddai hynny'n helpu i drin eu hanhwylderau.

Mae gan weirgloddiau sy'n cynnal cyfoeth o flodau gwyllt werth maeth uwch na glaswellt pur, ac yn cynnwys y proteinau a maetholynnau eraill sydd eu hangen ar dda byw i dyfu'n gryf. Mae dulliau amaethyddol modern, yn enwedig ailhadu gyda rhygwellt a defnydd helaeth o slyri a gwrtaith, wedi dileu blodau gwyllt o'n ffermydd ni i raddau helaeth.

Ond mae gan ffermydd modern lawer i'w elwa o ddulliau ffermio traddodiadol – mae rheoli glaswelltir i annog blodau gwyllt yn gwella iechyd da byw ac yn lleihau costau, gan leihau dibyniaeth ar gemegau a mewnbynnau eraill. Mae gan gaeau llawn blodau bridd iachach ac maent yn gallu gwrthsefyll sychder a llifogydd yn well.

# Mathau o laswelltiroedd

**Mae'r llyfryn yma'n nodi rhai o'r mathau pwysig o laswelltir a allai fod gennych chi ar eich fferm, yn ogystal â manteision planhigion i'ch da byw, eich pridd a'ch fferm.**

Gall glaswelltiroedd fod yn asidig, yn galchaidd (alcalïaidd) neu'n niwtral, yn dibynnu ar pH y pridd (mae pH yn fesur o asidedd).

Mae asidedd pridd yn cael ei bennu gan ddaeareg naturiol ardal ond gall hefyd gael ei effeithio gan arferion rheoli tir, fel calchu.

## Glaswelltir asid

## Glaswelltir corsiog (Porfa rhos)

## Glaswelltir niwtral

## Glaswelltir calchaidd

# Glaswelltir asid



**Y math mwyaf cyffredin o laswelltir lled-naturiol yng Nghymru.**

Mae glaswelltir asid yn cael ei reoli fel porfa barhaol fel rheol, a gall gynnal amrywiaeth o rywogaethau gwahanol os nad oes gwrtaith artiffisial yn cael ei roi arno neu os nad yw'n cael ei aredig.





# Tresgl y Moch

**Nodweddion adnabod:**

Tyfu'n isel at y ddaear (ymlusgol) ond gall gyrraedd taldra o hyd at 30cm.

Mae gan y blodau bedwar petal melyn.

Mae'r dail yn 'siâp masarn' ac yn ddanheddog, ac yn ariannaidd oddi tanynt.

Ddim i'w ddrysu â blodau menyn.

**Blodeuo:** Mai-Medi

**Manteision traddodiadol i dda byw:**

- Gwrthocsidydd
- Gwrthlidiol
- Gwrthfacterol
- Helpu gyda threuliad
- Lefel uchel o fwynau

**Y manteision i'r fferm:**

- Gwella sefydlogrwydd y pridd (gwreiddiau dwfn)
- Helpu i wella gallu'r glaswelltir i wrthsefyll sychder
- Yn denu sawl rhywogaeth o bryfed peillio ac adar





## Suran y Cŵn

**Nodweddion adnabod:**

Parhaol (yn dychwelyd flwyddyn ar ôl blwyddyn).

Dail sgleiniog siâp saeth / calon (ar Suran yr Ŷd mae'r 'adenydd' ym môn y dail yn fwy pigfain ac wedi cyrlio o'i amgylch).

Blodau cochlyd ar bigau main.

Ddim i'w drysu â thafol.

Y dail yn fwytadwy ac yn blasu fel croen afal.

**Blodeuo:**

Suran y Cŵn: Mai-Gorffennaf

Suran yr Ŷd: Ebrill-Awst

## Suran yr Ŷd

**Manteision traddodiadol i dda byw:**

- Llesol i'r arennau
- Oeri twymyn
- Lleddfu llid ar y croen
- Helpu gyda threuliad
- Lefel uchel o fitaminau a photasiwm

**Y manteision i'r fferm:**

- Da i sefydlogrwydd y pridd (gwreiddiau dwfn)
- Helpu i wella gallu'r glaswelltir i wrthsefyll sychder
- Denu sawl rhywogaeth o bryfed peillio ac adar





# Briwydd Wen

**Nodweddion adnabod:**

Parhaol (yn dychwelyd flwyddyn ar ôl blwyddyn).

Planhigyn cain yr olwg.

Y blodau'n fach iawn ac yn wyn.

Dail bach a chul, mewn 'setiau' o amgylch y coesyn.

**Blodeuo:** Mehefin-Awst

**Manteision traddodiadol i dda byw:**

- Gwrthlidiol
- Gwrthfacterol

**Y manteision i'r fferm:**

- Denu pryfed peillio
- Helpu i wella gallu'r glaswelltir i wrthsefyll sychder

# Glaswelltir corsiog
## (Porfa rhos)



**Glaswelltir corsiog, twmpathog sydd i'w ganfod ar bridd gwlyb iawn sy'n asidig, ac weithiau'n fawnog.**

Mae'r glaswelltir yma'n cynnig manteision niferus i fywyd gwyllt a ffermio – mae'r priddoedd gwlyb yn dal dŵr, sy'n helpu i leihau llifogydd, yn ogystal â darparu porfa haf i wartheg tra bo ardaloedd eraill yn cael seibiant.

Nid yw defaid yn addas iawn ar gyfer pori glaswelltir corsiog / porfa rhos gan nad ydynt yn gallu ymdopi â'r tir gwlyb, y twmpathau tal a'r llystyfiant caled – ac ar borfa frwyn byddant yn sathru'r tir gwlyb. Y dewis gorau i bori yma yw'r bridiau brodorol o wartheg sydd wedi addasu'n dda i'r amgylcheddau hyn.





# Tamaid y Cythraul

**Nodweddion adnabod:**

Parhaol (yn dychwelyd flwyddyn ar ôl blwyddyn).

I'w ganfod mewn glaswelltiroedd llaith a chorsiog.

Pennau crwn i'r blodau porffor.

Gall y dail fod ag ymyl llyfn neu siâp 'dant'.

**Blodeuo:** diwedd Gorffennaf-mis Hydref

**Manteision traddodiadol i dda byw:**

- Dull naturiol o atal llyngyr i dda byw
- Cefnogi'r system resbiradol ac yn lleihau mwcws
- Helpu gyda threuliad
- Gall wella archwaeth bwyd

**Y manteision i'r fferm:**

- Denu sawl rhywogaeth o bryfed peillio
- Planhigyn bwyd i lindys y glöyn byw prin, Britheg y Gors





# Carpiog y Gors

**Nodweddion adnabod:**

Parhaol (planhigyn sy'n dychwelyd flwyddyn ar ôl blwyddyn).

I'w ganfod mewn glaswelltiroedd llaith a chorsiog.

Blodau pinc 'blêr' yr olwg gyda phum petal carpiog.

Dail cul, tebyg i laswellt ac yn arw i'w cyffwrdd.

**Blodeuo:** Mai-Awst

**Y manteision i'r fferm:**

Er nad yw da byw'n eu bwyta, daw Carpiog y Gors a budd i'r cynefin drwyddo draw drwy ddenu peillwyr lu sydd yn eu tro'n denu pryfed mwy fel gweision neidr, sy'n bwydo ar bryfed sy'n brathu a phlâu.



# Glaswellt y Gweunydd

**Nodweddion adnabod:**

Glaswellt mawr sy'n ffurfio twmpathau.

I'w ganfod mewn glaswelltiroedd llaith a chorsiog.

Parhaol, troi'n felyn/brown yn y gaeaf ac yn wyrdd yn y gwanwyn/haf.

Blodau ychydig yn borffor, sy'n rhoi ei enw iddo yn Saesneg.

**Blodeuo:** Gorffennaf-Medi

**Manteision traddodiadol i dda byw:**

- Lefel isel o siwgr a lefel uchel o ffibr
- Blasus pan mae'n ifanc
- Gall gynyddu pwysau byw gwartheg wrth bori arno yn yr haf

**Y manteision i'r fferm:**

- Cael ei gynaeafu'n draddodiadol fel gwasarn
- Sefydlogi priddoedd gwlybdir, lleihau erydiad
- Helpu i leihau dŵr ffo a llifogydd
- Helpu i wella ansawdd dŵr
- Storio carbon
- Gallu gwrthsefyll sychder
- Darparu cynefin ar gyfer adar a mamaliaid bychain





# Melog y Cŵn

**Nodweddion adnabod:**

Parhaol (planhigyn sy'n dychwelyd flwyddyn ar ôl blwyddyn).

Yn tyfu'n isel at y ddaear, ymledu.

Blodau pinc.

Dail bach iawn, 'pluog' yr olwg gydag ymylon tolciog.

**Blodeuo:** Ebrill-Gorffennaf

**Manteision traddodiadol i dda byw:**

- Nodweddion gwrthfacterol
- Gwrthlidiol
- Helpu gyda threuliad

**Y manteision i'r fferm:**

- Ychwanegu amrywiaeth fuddiol at y glaswelltir
- Helpu i wella ansawdd y pridd
- Denu sawl rhywogaeth o bryfed peillio

# Glaswelltir niwtral



**Mae glaswelltir niwtral i'w ganfod ar briddoedd sy'n draenio'n rhydd ledled Cymru – ac mae'r ddôl wair draddodiadol i'w chanfod amlaf ar y priddoedd niwtral yma.**

Gan fod cymaint o Gymru yn asidig, mae glaswelltir niwtral yn cael ei gynnal yn aml drwy hanes maith o galchu cyfnodol heb ychwanegu gwrtaith artiffisial. Mae glaswelltir niwtral yn gyfoethog iawn mewn blodau gwyllt yn aml, sy'n darparu buddion iechyd aruthrol i bob rhywogaeth o dda byw sy'n pori.





# Cribell Felen

**Nodweddion adnabod:**

Blynyddol (yn cwblhau cylchedd bywyd o fewn blwyddyn).

Blodau melyn.

Dail siâp nodedig sy'n tyfu gyferbyn â'i gilydd i fyny'r coesyn.

Mae gan y codennau hadau brown swn 'ratl' penodol; sy'n arwain at yr enw yn Saesneg.

Roedd yn cael ei defnyddio yn hanesyddol i amseru toriad y gwair.

**Blodeuo:** Mai-Medi

**Manteision traddodiadol i dda byw:**

- Helpu i sefydlu gwyndwn mwy amrywiol i dda byw
- Hynod faethlon
- Ychwanegiad gwerthfawr at y cnwd o wair

**Y manteision i'r fferm:**

- Mae'r Gribell Felen yn barasitig i laswelltau
- Yn cael ei defnyddio yn gyffredin wrth greu dolydd i gynyddu amrywiaeth y planhigion mewn glaswelltir





# Y Bengaled

**Nodweddion adnabod:**

Parhaol (yn dychwelyd flwyddyn ar ôl blwyddyn).

Yn tyfu hyd at 1m o daldra.

Yn edrych yn debyg i asgell – ond ddim yn bigog.

Blodau porffor gyda bôn caled, eithaf du; pennau'r hadau'n dywyll a chrwn eu siâp.

Dail cul, gall yr ymylon fod yn llyfn neu'n ddanheddog.

**Blodeuo:** Mehefin-Medi

**Manteision traddodiadol i dda byw:**

- Gall wella archwaeth bwyd
- Yn cael ei defnyddio'n hanesyddol i helpu i leihau gwaedu
- Ychwanegiad maethlon at wair, gan helpu i gynyddu cnwd

**Y manteision i'r fferm:**

- Da i sefydlogrwydd y pridd (gwreiddiau dwfn)
- Helpu i wella gallu'r glaswelltir i wrthsefyll sychder
- Denu sawl rhywogaeth o bryfed peillio
- Yr hadau'n darparu bwyd i adar





# Meillionen Goch

**Nodweddion adnabod:**

Parhaol (yn dychwelyd flwyddyn ar ôl blwyddyn).

Blodau cochbinc.

Siâp deilen meillion nodweddiadol, gydag ymylon blewog.

**Blodeuo:** Mai-Hydref

**Manteision traddodiadol i dda byw:**

- Yn uchel mewn nitrogen ac yn cynnal twf a magu pwysau
- Gwrthlidiol
- Helpu i greu cydbwysedd hormonau
- Helpu gyda chyflyrau ar y croen

**Y manteision i'r fferm:**

- Codlysieuyn sy'n cynnal y nitrogen, yn gwella ffrwythlondeb y pridd
- Gwreiddiau dwfn, yn gwella strwythur y pridd
- Ychwanegiad da at gnwd o wair
- Yn cynnal sawl rhywogaeth o bryfed peillio





# Pysen-y-Ceirw

**Nodweddion adnabod:**

Parhaol (yn dychwelyd flwyddyn ar ôl blwyddyn).

Pum deilen fach, yn aml yn flewog.

Mae gan yr hadau godennau sy'n edrych fel siâp troed aderyn pan maen nhw'n aeddfed.

Blodau melyn yn fwyaf cyffredin, ond yn gallu bod yn oren neu goch hefyd.

**Blodeuo:** Mehefin-Medi

**Manteision traddodiadol i dda byw:**

- Nodweddion gwrthfacterol
- Gwrthlidiol
- Yn uchel mewn nitrogen ac yn cynnal twf a magu pwysau
- Helpu i greu cydbwysedd hormonau
- Lefel uchel o daninau, lleihau nematodau yn y perfedd (llyngyr)

**Y manteision i'r fferm:**

- Codlysieuyn sy'n cynnal y nitrogen, yn gwella ffrwythlondeb y pridd
- Gwreiddiau dwfn, yn gwella strwythur y pridd
- Helpu i wella gallu'r glaswelltir i wrthsefyll sychder
- Denu sawl rhywogaeth o bryfed peillio





# Briwydd Felen

**Nodweddion adnabod:**

Parhaol (yn dychwelyd flwyddyn ar ôl blwyddyn).

Yn debyg i'r Friwydd Wen, ond yn blanhigyn mwy yn gyffredinol.

Blodau melyn a choesynnau sgwâr.

Dail bach a chul, mewn 'setiau' i fyny'r coesyn.

Arogli fel gwair ffres.

**Blodeuo:** Mehefin-Medi

**Manteision traddodiadol i dda byw:**

- Cynnwys uchel o ran protein ac yn cynnal twf a magu pwysau
- Blasus iawn i dda byw

**Y manteision i'r fferm:**

- Gallu gwrthsefyll amodau gwlyb a sych
- Helpu i wella gallu'r glaswelltir i wrthsefyll sychder
- Ychwanegiad maethlon at gnwd o wair





# Milddail

**Nodweddion adnabod:**

Parhaol (yn dychwelyd flwyddyn ar ôl blwyddyn).

Dail gwyrdd tywyll, pluog.

Blodau gwyn / pinc golau mewn clystyrau top fflat.

**Blodeuo:** Mehefin-Awst

**Manteision traddodiadol i dda byw:**

- Gwrthfacterol
- Gwrthlidiol
- Helpu gyda threuliad
- Helpu i leihau twymyn
- Blasus iawn i ddefaid ar dir sych

**Y manteision i'r fferm:**

- Sychu'n dda mewn cnwd o wair
- Denu sawl rhywogaeth o bryfed peillio
- Denu buchod coch cota ac adenydd siderog sy'n bwydo ar blâu





# Y Feddyges Las

**Nodweddion adnabod:**

Parhaol (yn dychwelyd flwyddyn ar ôl blwyddyn).

Yn tyfu mewn priddoedd asidig, niwtral a chalchaidd.

Blodau talsyth lliw fioled.

**Blodeuo:** Ebrill-Mehefin

**Manteision traddodiadol i dda byw:**

- Yn cael ei hadnabod yn hanesyddol am ei nodweddion meddyginiaethol cyffredinol
- Gwrthlidiol
- Gwrthfacterol
- Helpu i leihau twymyn
- Lleddfu dolur rhydd

**Y manteision i'r fferm:**

- Llesol i dda byw fel hunanfeddyginiaeth
- Denu sawl rhywogaeth o bryfed peillio





# Cribau San Ffraid

**Nodweddion adnabod:**

Parhaol (yn dychwelyd flwyddyn ar ôl blwyddyn).

Blodau coch i borffor talsyth.

Dail nodedig iawn gydag ymylon 'tolciog', y coesyn yn teimlo'n sgwâr o'i rolio rhwng y bysedd.

**Blodeuo:** Mehefin-Hydref

**Manteision traddodiadol i dda byw:**

- Gwrthlidiol
- Gwrthfacterol
- Analgesaidd (lladd poen yn naturiol)

**Y manteision i'r fferm:**

- Denu sawl rhywogaeth o bryfed peillio
- Yn gallu gwrthsefyll amodau tywydd cyfnewidiol: sychder a dwrlawn

# Glaswelltir calchaidd



**Yn gymharol anghyffredin yng Nghymru, mae glaswelltir calchaidd i'w ganfod ar briddoedd calchaidd neu galchfaen, fel y Gogarth ger Llandudno, Gogledd Ddwyrain Cymru, Penrhyn Gŵyr, ac Arfordir Treftadaeth Morgannwg.**

Fel arfer mae gan laswelltir calchaidd bridd bas gyda brigiadau creigiog. Gall y rhywogaethau yn y cynefin yma fod yn eithaf gwahanol i gynefinoedd glaswelltir eraill.





# Teim Gwyllt

**Nodweddion adnabod:**

Parhaol (yn dychwelyd flwyddyn ar ôl blwyddyn).

Hynod bersawrus, fel y Teim sy'n berlysieuyn yn y gegin.

Yn tyfu ar laswelltir byr, sych.

Yn tyfu'n isel at y ddaear (ymlusgol).

Pennau blodau pinc i borffor.

**Blodeuo:** Mehefin-Medi

**Manteision traddodiadol i dda byw:**

- Gwrthfacterol
- Gwrthocsidydd
- Atal llyngyr yn naturiol
- Helpu gyda threuliad
- Yn trin problemau resbiradol
- Meddyginiaeth hanesyddol i'r clafr

**Y manteision i'r fferm:**

- Yn gwella cynhyrchiant a strwythur y pridd
- Denu sawl rhywogaeth o bryfed peillio
- Helpu i wella gallu'r glaswelltir i wrthsefyll sychder
- Gallu gwrthsefyll plâu







# Blodau Ymenyn

**Pa flodyn menyn?**

Mae sawl rhywogaeth o flodyn menyn. Ond mae'n hawdd gwahaniaethu rhwng rhai ohonyn nhw pan fyddwch chi'n gwybod beth i chwilio amdano. Dyma rai o'r rhai mwyaf cyffredin:

**Blodyn Menyn Ymlusgol** (chwith)

**Blodyn Menyn** (canol)

**Blodyn Menyn Bondew** (dde)

I'w ganfod mewn glaswelltiroedd niwtral. Mae 'sepalau' gwyrdd nodedig ym môn y blodyn yn plygu'n ôl ac yn pwyntio ar i lawr mewn Blodau Menyn Bondew yn unig.

Mae pob rhywogaeth o flodau menyn yn wenwynig pan gânt eu bwyta'n ffres, ond mae'r blas chwerw'n atal da byw felly mae'r achosion o wenwyno yn brin iawn. Mae'r tocsin yn cael ei ddinistrio drwy sychu felly mae ei bresenoldeb mewn gwair yn ddiniwed.

**Y manteision i'r fferm:**

- Denu sawl rhywogaeth o bryfed peillio
- Yn denu buchod coch cwta sy'n bwydo ar affidau
- Gwella sefydlogrwydd y pridd (gwreiddiau dwfn)
- Helpu i wella gallu'r glaswelltir i wrthsefyll sychder

# Rhagor o wybodaeth

## Llyfrau

**Grassland Restoration and Management**
Blakesley, D and Buckley, P (2016) Pelagic Publishing

**RHS Weeds**
Richards, G (2021) Welbeck Publishing Group in association with Royal Horticultural Society

**Royal Botanic Gardens Kew Witch's Garden Plants in folklore, magic and traditional medicine**
Sandra, L (2020) Welbeck, an imprint of the Welbeck Publishing Group

**The Complete Herbal Handbook For Farm and Stable**
De Bairacli Levy, J (1991) 4th edn. Faber and Faber Limited

## Gwefannau

**Plants and Fungi**
plantlife.org.uk/plants-and-fungi

**The Glaswelltiroedd Gwydn Project**
plantlife.org.uk/our-work/glaswelltiroedd-gwydn-project

**Managing Arable Farm Land**
plantlife.org.uk/managing-arable-land

**National Plant Monitoring Scheme: Species List**
npms.org.uk/sites/default/files/PDF/NPMS_Species%20lists_WEB_2ndEd.pdf

**Wildflower web**
wildflowerweb.co.uk

**Agricology**
agricology.co.uk

**Nature Friendly Farming Network**
nffn.org.uk

**Science Direct**
sciencedirect.com

Sganiwch i wybod mwy am **reoli gweirgloddiau**

Plantlife Llais byd-eang planhigion gwyllt a ffyngau

cymru@plantlife.org.uk

plantlife.org.uk

Mae Plantlife Cymru yn rhan o Plantlife International - yr Elusen Cadwraeth Planhigion Gwyllt, cwmni elusennol cyfyngedig drwy warant. Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr, rhif elusen 1059559. Cwmni cofrestredig rhif 3166339, cofrestredig yng Nghymru a Lloegr.